Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwr yr Ystad

Effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol ystad weinyddol Llywodraeth Cymru 2019-2020









llyw.cymru

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 3
   - 1.1 Strategaeth Leoli 2015-2020 3
   - 1.2 Yr Ystad Weinyddol 4
2. Perfformiad yr Ystad 5
   - 2.1 Effeithlonrwydd 5
   - 2.2 Maint a Chostau Rhedeg 6
   - 2.3 Effeithlonrwydd Amgylcheddol 7
   - 2.4 Tystysgrifau Effeithlonrwydd Ynni 8
   - 2.5 Perfformiad Amgylcheddol 9
3. Edrych Ymlaen 10





OGL ISBN digidol 978-1-80195-444-0 © Hawlfraint y Goron 2021 WG42864

# 1. Cyflwyniad

Yn wahanol i adroddiadau blaenorol, mae'r adroddiad hwn, sef adroddiad uchafbwyntiau Cyflwr yr Ystad 2019-20, wedi'i gyfyngu i'r mesurau perfformiad allweddol ar gyfer blwyddyn olaf Strategaeth Leoli 2015-2020. Yn ogystal â chymharu 2019-20 â'r flwyddyn adrodd flaenorol, mae'n cyfeirio at y sefyllfa ar ddechrau cyfnod y Strategaeth.

Mae'r Ystad Weinyddol o bwys strategol a gweithredol hanfodol, gan ddarparu’r sail ar gyfer cyflawni busnes Llywodraeth Cymru. Mae sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl o ran adeiladau, a darparu'r amgylchedd gwaith cywir, yn gwella cynhyrchiant ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio lle mae eu hangen – sef cyflawni nodau craidd y Llywodraeth ar gyfer Cymru fwy ffyniannus, amgylcheddol gadarn a chyfartal.

Mae Strategaeth 2015-20 yn adeiladu ar lwyddiannau sylweddol y ddwy strategaeth flaenorol. Mae cost yr ystad weinyddol wedi lleihau, mae ei maint wedi lleihau, mae allyriadau carbon wedi lleihau'n sylweddol, mae bioamrywiaeth wedi’i gwella ac mae ansawdd cyffredinol yr ystad wedi gwella, gan drawsnewid y rhan fwyaf o'r gweithleoedd.

Bu llawer o heriau yn ystod cyfnod y strategaeth hon, gan orffen gyda llifogydd ar safle dwy o’n swyddfeydd, sef Bedwas a Threfforest, yn dilyn Storm Denis, ac yna’r pandemig byd-eang. Mae'r digwyddiadau annisgwyl hyn wedi achosi oedi cyn cau Plas Carew. Mae effaith y pandemig ar ein ffordd o weithio hefyd wedi dod â heriau penodol a fydd yn llywio natur a ffurf yr ystad weinyddol ar gyfer 2020-2025 a’r tu hwnt.

Nodir data allweddol yn y testun canlynol, gyda dadansoddiad manylach o'r prif ffigurau yn yr Atodiadau.

## 1.1 Strategaeth Leoli 2015-2020

Roedd Strategaeth 2015-20 yn nodi'r blaenoriaethau canlynol:

- ystad wasgaredig yn y lleoliadau cywir, a honno’n cynnwys llai o adeiladau, sydd wedi’u gwella’n sylweddol o ran ansawdd a pherfformiad;
- amgylcheddau gwaith modern, hyblyg a chefnogol sydd â’r dechnoleg gywir i alluogi staff i weithio’n effeithlon;
- llai o gostau gweithredu sy’n adlewyrchu’r heriau ariannol cynyddol;
- ad-drefnu’r ystad swyddfeydd i greu 15 o swyddfeydd craidd a gweithredol sy’n cynnwys llai na 70,000 metr sgwâr o lety swyddfa.

Cefnogir y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hyn gan nifer o egwyddorion arweiniol. Yn bennaf yn eu mysg yw y dylai'r ystad fodloni gofynion busnes a pholisi Llywodraeth Cymru a darparu amgylcheddau gwaith effeithlon, diogel, iach ac amgylcheddol gynaliadwy.

Mae'r adroddiad uchafbwyntiau hwn yn crynhoi'r data perfformiad allweddol o ran effeithlonrwydd a’r data perfformiad amgylcheddol allweddol. Mae hefyd yn amlygu cynnydd yn ystod cyfnod y strategaeth yn erbyn y canlynol:

- Maint a chost rhedeg yr ystad:
  - Rhent[1]
  - Ardrethi Busnes
  - Costau eraill
- Effeithlonrwydd y gweithle:
  - £ fesul swydd cyfwerth ag amser llawn (FTE)
  - Metrau sgwâr fesul FTE
- Perfformiad ynni fel Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC).
- Perfformiad amgylcheddol ar gyfer allyriadau $CO_2$; cynhyrchu ac ailgylchu gwastraff a defnyddio dŵr.

Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o effeithlonrwydd y swyddfeydd gweithredol craidd a oedd yn rhan o'r ystad ar 31 Mawrth 2020.

Mae eiddo arbenigol wedi'u heithrio o'r ffigurau effeithlonrwydd cost. Ceir manylion am eiddo arbenigol yn Atodiad 4.

Mae adroddiadau blaenorol wedi cynnwys swyddfeydd tramor. Mae swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru bellach wedi'u cydleoli'n bennaf ar safleoedd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

## 1.2 Yr Ystad Weinyddol

Mae'r Ystad yn darparu gofod gweithio a chyfarfod hyblyg a modern ar gyfer 5,405 o staff a chontractwyr cyfwerth ag amser llawn mewn 17 o swyddfeydd craidd. Y prif ganolfannau yw Parc Cathays, Caerdydd, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, Rhodfa Padarn, Aberystwyth a Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno. Mae swyddfeydd ac eiddo eraill wedi'u lleoli ledled Cymru i sicrhau presenoldeb gwasgaredig ac i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion busnes.

Nodir data ategol yn Atodiadau'r adroddiad:

- **Atodiad 1** Data allweddol ar gyfer 17 swyddfa graidd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2020.
- **Atodiad 2** Arbedion a gyflawnwyd o eiddo a adawyd 2015-2020.
- **Atodiad 3** Crynodeb o Berfformiad 2015-2020.
- **Atodiad 4** Crynodeb o Berfformiad Eiddo Ystad Arbenigol.

1 Defnyddir rhent tybiannol ar gyfer swyddfeydd rhydd-ddaliadol. Adolygir hyn bob 5 mlynedd yn unol â'r prisiad asedau corfforaethol. Roedd yr adolygiad diweddaraf ar 31 Mawrth 2020.

# 2. Perfformiad yr Ystad

## 2.1 Effeithlonrwydd

Yn gyffredinol, mae maint yr Ystad Weinyddol yn parhau i leihau. Mae'r angen i fod ar wasgar ledled Cymru yn cyfyngu ar y cyfleoedd i gau rhagor o swyddfeydd, ond lle mae cyfleoedd yn codi, mae opsiynau i newid yr ystad i'r maint cywir yn cael eu hystyried yn weithredol drwy ddatblygu achosion busnes, arfarniadau buddsoddi ac ymgynghori â staff ac Ochr yr Undebau Llafur.

Mae cyfleoedd i gydleoli, naill ai drwy is-osod gofod gwag neu mewn adeiladau cyhoeddus eraill, yn cael eu harchwilio'n weithredol. Er enghraifft, mae'r cynllun i symud swyddfa Llywodraeth Cymru i Neuadd y Sir, Powys yn Llandrindod bellach yn y camau olaf.

Roedd Strategaeth 2015-2020 yn rhag-weld y byddai nifer o swyddfeydd yn cau fel rhan o broses ad-drefnu'r ystad. Ni chaewyd pob un a fwriadwyd o fewn y cyfnod o bum mlynedd. Mae newidiadau polisi yn ystod cyfnod y strategaeth a chynllunio busnes cadarn wrth arfarnu'r opsiynau pan gododd y cyfleoedd unigol, wedi arwain at ystad weddilliol fwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae hyn wedi cael sgil effaith ar arwynebedd llawr a thargedau cost. Mae ailbrisio rhent yr ystad rydd-ddaliadol yn 2020 a chynnydd mewn costau cyfleustodau wedi bod yn ffactorau pwysig o ran peidio â chyrraedd targedau cost.

Bydd yr ad-drefnu arfaethedig, gan gynnwys cau Plas Carew, Nantgarw ac ad-drefnu'r llety yn Llandrindod, y Drenewydd a Threfforest/Pontypridd i gymhareb gofod o 5 FTE fesul 10 gweithfan ac 8 metr sgwâr fesul gweithfan, yn cael effaith gadarnhaol ar effeithlonrwydd gofod yr ystad. O ganlyniad, bydd manteision o ran costau rhedeg hefyd.

Mae perfformiad ystad weinyddol Llywodraeth Cymru yn parhau i gymharu'n ffafriol ag ystadau Llywodraeth y DU a'r sector preifat o ran cost fesul metr sgwâr a chost fesul FTE, ond mae'n is na'r mesur effeithlonrwydd gofod o fetrau sgwâr fesul FTE[2]. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i natur wasgaredig yr ystad.

Er nad yw pob targed wedi'i gyflawni, bu gwelliannau sylweddol mewn perfformiad amgylcheddol. Mae effaith llifogydd a Covid-19 wedi atal y nod i ostwng nifer yr adeiladau, ond bydd y targed hwn yn cael ei gyflawni ym mlwyddyn ariannol 2020-21.

Nodir isod y ffigurau perfformiad allweddol ar gyfer yr ystad gyfan. Ceir dadansoddiad fesul adeilad yn Atodiad A.

2 www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/951941/CCS0720826990-001_State_of_the_Estate_Report_19-20_WebAccessible.pdf

## 2.2 Maint a Chostau Rhedeg

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 | Newid (2019-20) | Targed 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad (metr sgwâr) | 82,295 | 76,836 | 76,181 | 0.85 % | 70,000 |
| Nifer yr Eiddo | 25 | 18 | 17 | -1 | 16 |
| Cost (m) | £18.136 | £17.920 | £20.42 | 13.95% | £15.5[3] |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | |
| Cost fesul FTE | £3,285 | £3,428 | £3,778 | 10.21% | £2,679 |
| Cost fesul metr sgwâr | £212.4 | £233.22 | £268.04 | 14.93% | £221 |
| Metr sgwâr fesul FTE | 15.5 | 14.7 | 14.1 | -4.1% | 12 |

3 Nid yw'r ffigurau targed na'r ffigurau cost wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant.


## 2.3 Effeithlonrwydd Amgylcheddol

Mae'r ystad wedi perfformio'n dda o ran effeithlonrwydd amgylcheddol, buddsoddiadau mewn technoleg a newid ymddygiad gan sicrhau gostyngiadau cadarnhaol sylweddol mewn carbon, gwastraff a dŵr (Ffigur 1).

Nodwyd buddsoddiadau posibl at y dyfodol i alluogi'r ystad i gyfrannu ymhellach at sector cyhoeddus di-garbon erbyn 2030.


### Ar draws yr Ystad

- Cynyddu effeithlonrwydd ynni adeiladau drwy brosiectau cyfalaf ac optimeiddio
- Mesuryddion, monitro a thargedu ar y rhyngrwyd
- Inswleiddio pibellau, cantelau a falfiau
- Polisi Tymheredd Adeiladau diwygiedig
- Tapiau trydanol sy'n cynhesu dŵr ar unwaith
- Wrinalau heb ddŵr mewn amrywiol safleoedd
- Arolygon adeiladau yn rheolaidd




## Ffigur 1: Rheoli Carbon yn yr Ystad Weinyddol

Rheoli Carbon ar draws Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru



## 2.4 Tystysgrifau Effeithlonrwydd Ynni (DEC)




Mae'r sgôr DEC gyfartalog wedi gwella 3 phwynt ers 2018-19. Perfformiodd pob swyddfa yn well na'r cyfartaledd ar gyfer eu math a'u maint, gyda 7 o blith 11 yn dangos gwelliannau ers mis Mawrth 2019.

## 2.5 Perfformiad Amgylcheddol

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 | % Newid (2019-20) | Targed 2020 | Wedi'i gyflawni 2015-2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO^2$) | 8,498 | 4,236 | 3,713 | 12.34 | | |
| Trydan (t $CO^2$) | 7,185 | 3,193 | 2,647 | 17.09 | Gostwng 30% o waelodlin 2010-11 | -56% |
| Nwy (t $CO^2$) | 1,313 | 1,043 | 1,066 | -2.2 | | |
| Cyfanswm gwastraff (tunelli) | 500 | 372 | 284 | 23.66 | Gostwng 0.5% y flwyddyn | -43% |
| Tirlenwi (% cyfanswm) | 25 | 1 | 1 | | | |
| Ailgylchu (% cyfanswm) | 75 | 88 | 82 | -6.81 | Cynyddu i 80% | 82% |
| Dŵr ($m^3$/person/blwyddyn) | 8.3 | 6.2 | 5.6 | 9.67 | 6 $m^3$ y pen mewn safleoedd allweddol | 5.6 $m^3$ |

Mae'r ystad wedi cynnal neu wella perfformiad amgylcheddol mewn 6 o blith 8 categori.

Rhagorwyd ar darged 2020 i leihau carbon 30%: mae allyriadau wedi gostwng 70% ers blwyddyn sylfaen 2010-11. Mae allyriadau wedi gostwng 523 o dunelli o $CO_2$ t yn y deuddeg mis hyd at fis Mawrth 2020 a 56% dros gyfnod y Strategaeth.

## 3. Edrych Ymlaen

Lluniwyd yr adroddiad uchafbwyntiau hwn ar ddiwedd blwyddyn gythryblus. Mae tywydd eithafol a'r pandemig wedi herio'r ffordd yr ydym yn gweithio. Bydd hyn yn ddi-os yn cael effaith ar faint, siâp a defnydd o’r ystad weithredol yn y dyfodol.

Gwnaed gwelliannau sylweddol yn effeithlonrwydd yr ystad yn sgil y gostyngiad yn nifer yr adeiladau. Bydd cyfleoedd i barhau i wneud gwelliannau yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar gynyddu'r defnydd o'r adeiladau hynny a gedwir.

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn cynllunio llwybr newydd ymlaen drwy ddatblygu strategaeth gweithle newydd ar gyfer y dirwedd ôl-bandemig. Bydd y strategaeth hon yn ymgorffori newid parhaol mewn patrymau gwaith, gyda mwy o staff yn gweithio naill ai gartref neu o bell. Bydd fframwaith newydd o egwyddorion lefel uchel yn cael ei ddefnyddio i lunio cynlluniau’r ystad at y dyfodol.

Fodd bynnag, wrth i'r newid hwn yn y model gweithio gael ei ailadrodd ar draws y sector cyhoeddus, y gwirionedd yw ei bod yn debygol y bydd mwy o le heb ei ddefnyddio ar draws yr ystad gyhoeddus. Bydd hyn yn cynyddu'r heriau o ran gwella effeithlonrwydd.

Fodd bynnag, mae'r ffactorau hyn yn gyfle i ystyried set wahanol o ddangosyddion sy'n adlewyrchu ei heffeithiolrwydd yn llawn, ynghyd â'r mesurau effeithlonrwydd sydd bob amser yn bwysig.

# Atodiad 1: Data am yr Eiddo Craidd 2019-20

| Cyfeiriad | Cyfanswm Perchnogaeth Arwynebedd Mewnol Net (AMN) LIC | AMN metr sgwâr | Staff 2019 (gan gynnwys contractwyr sy'n defnyddio gofod LIC)) | Metr sgwâr fesul staff | Cymhareb Ddesg | Deiliadaeth | Alldaliadau Blynyddol ac eithrio Rhent ac Ardrethi | Ardrethi a Dalwyd 2019 | Rhent* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CP1 a CP2 Parc Cathays, Caerdydd | 37,923 | 37,696 | 2641.6 | 14 | 1.00 | ○ | £4,719,417 | £1,249,597 | £3,430,000 |
| Rhan o Lawr 2/Rhan o Lawr 5, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd | 1,792 | 1,792 | 127.4 | 14 | 1.34 | ■ | £54,917 | £0 | £0 |
| Tŷ'r Afon, Ffordd Bedwas, Bedwas, Caerffili | 2,907 | 2,486 | 148.2 | 17 | 1.67 | ■ | £306,780 | £125981 | £374490 |
| Rhyd-y-car, Merthyr Tudful | 6,097 | 6,097 | 544.2 | 11 | 1.06 | ○ | £1,151,841 | £260,370 | £825,000 |
| Plas Carew, Nantgarw (Unedau 5/7) | | 1,950 | 77 | 25 | 1.91 | ■ | £204,348 | £106,252 | £327,194 |
| Canolfan QED, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd | | 3,763 | 319.1 | 12 | 1.35 | ■ | £504,403 | £169,359 | £275,000 |
| Adeiladau'r Goron, Heol Picton, Caerfyrddin | 3,791 | 3,209 | 261.2 | 12 | 0.93 | ○ | £263,439 | £121,818 | £262,400 |
| Parc Busnes Havenshead, Aberdaugleddau | | 155 | 21.6 | 7 | 0.83 | ■ | £12,754 | £6,970 | £16,800 |
| Llys-y-Ddraig, Parc Busnes Penllergaer, Abertawe | 1,792 | 1,713 | 290.1 | 6 | 0.79 | ○ | £290,088 | £75,931 | £148,180 |
| Rhodfa Padarn, Aberystwyth | 6,262 | 5,781 | 259.4 | 22 | 1.50 | ○ | £1,021,427 | £257,314 | £591,400 |
| Adeilad y Goron, Spa Road East, Llandrindod | 2,672 | 2,346 | 102.1 | 23 | 1.57 | ○ | £202,188 | £50,656 | £145,000 |
| Tŷ Ladywell, Y Drenewydd | | 1,495 | 67.2 | 22 | 1.44 | ○ | £196,439 | £44,973 | £150,900 |

| Cyfeiriad | Cyfanswm Perchnogaeth Arwynebedd Mewnol Net (AMN) LIC | AMN metr sgwâr | Staff 2019 (gan gynnwys contractwyr sy'n defnyddio gofod LIC)) | Metr sgwâr fesul staff | Cymhareb Ddesg | Deiliadaeth | Alldaliadau Blynyddol ac eithrio Rhent ac Ardrethi | Ardrethi a Dalwyd 2019 | Rhent* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Timekeepers Office, Caergybi | | 55 | 7.6 | 7 | 1.05 | ■ | £4,154 | £0 | £5,000 |
| Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno | 7,105 | 6,139 | 405.4 | 15 | 1.06 | ○ | £1,095,075 | £319,488 | £627,750 |
| 1 Grosvenor Lodge, Grosvenor Road, Wrecsam | | 318 | 13.8 | 23 | 1.75 | ■ | £41,626 | £13,282 | £40,800 |
| Ystafelloedd 5, 7 ac 8 Bloc A, Doc Fictoria, Caernarfon | | 738 | 78.7 | 9 | 1.02 | ■ | £85,811 | £48,655 | £76,200 |
| Llawr gwaelod, Uned 2 Oak House, Parc Busnes Celtic Springs, Casnewydd | | 448 | 40.2 | 11 | 0.77 | ■ | £28,864 | £25,906 | £63,600 |

○ Rhydd-ddaliad ■ Lesddaliad

Dangosir eiddo rhydd-ddaliadol a lesddaliad hir fel rhenti tybiannol. Mae rhenti'n ymwneud â'r arwynebedd llawr a feddiannir gan Lywodraeth Cymru.

* Mae'r holl ffigurau'n cynnwys TAW, lle bo'n daladwy.

# Atodiad 2: Arbedion y Strategaeth Leoli

## Arbedion a Gyflawnwyd o Eiddo a Adawyd 2015-2020

| | Dyddiad Gadael | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2015-16 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2016-17 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2017-18 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2018-19 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2019-20 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2020-21 | Cyfanswm 5 Mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tŷ Wynchway, Hwlffordd | 01/02/16 | £21,861 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | **£677,701** |
| Ffordd Aran, Dolgellau | 31/03/16 | - | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | **£35,365** |
| Y Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth | 31/03/16 | - | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | **£145,470** |
| Brecon House, Caerffili | 31/05/17 | - | - | £106,280 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | **£489,098** |
| Tŷ'r Llyn, Abertawe | 23/06/17 | - | - | £371,811 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | **£1,815,546** |
| Hen Ficerdy, Caergybi | 12/01/18 | - | - | £7,110 | £33,271 | £33,271 | £33,271 | **£107,373** |
| Hill House, Heol Picton, Caerfyrddin | 01/04/18 | - | - | - | £139,078 | £139,078 | £139,078 | **£417,234** |
| Parc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr | 22/06/18 | - | - | - | £92,863 | £119,770 | £119,770 | **£332,403** |
| Adeiladau'r Goron, Penrallt Uchaf, Caernarfon | 27/07/18 | - | - | - | £242,337 | £356,666 | £356,666 | **£955,669** |
| Tŷ Clarence, Casnewydd | 30/05/19 | - | - | - | - | £79,381 | £94,999 | **£174,380** |
| Tŷ Southgate, Caerdydd | 19/09/19 | - | - | - | - | £87,042 | £163,766 | **£250,808** |
| **Cyfanswm Arbedion** | | **£21,861** | **£167,335** | **£652,536** | **£1,283,735** | **£1,591,394** | **£1,684,186** | **£5,401,047** |

# Atodiad 3: Crynodeb o Berfformiad 2015-2020

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad - metr sgwâr | 82,295 | 81,888 | 82,275 | 80,325 | 76,836 | 76,181 |
| Nifer yr Eiddo | 25 | 22 | 22 | 20 | 18 | 17 |
| Costau yr Ystad £ miliwn | £18.136 | £17.428 | £18.417 | £18.477 | £17.920 | £20.420 |
| Rhent £ miliwn | £5.849 | £5.835 | £5.891 | £5.600 | £5.328 | £7.360 |
| Ardrethi £ miliwn | £2.721 | £2.771 | £2.785 | £2.810 | £2.863 | £2.877 |
| Arall £ miliwn | £9.564 | £8.821 | £9.740 | £10.067 | £9.729 | £10.183 |
| Gofod Gwag | - | - | - | - | - | - |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| Cost fesul FTE | £3,139 | £3,229 | £3,380 | £3,576 | £3,428 | £3,778 |
| Effeithlonrwydd o ran Cost - £ fesul metr sgwâr | £220.37 | £212.82 | £223.85 | £230.02 | £233.22 | £268.04 |
| Rhent £ fesul metr sgwâr | £71.08 | £71.26 | £71.26 | £69.71 | £69.34 | £96.60 |
| Ardrethi £ fesul metr sgwâr | £33.07 | £33.84 | £33.85 | £34.98 | £37.26 | £37.76 |
| Arall £ fesul metr sgwâr | £116.23 | £107.72 | £118.39 | £125.33 | £126.62 | £133.68 |
| Effeithlonrwydd o ran Gofod - metr sgwâr fesul FTE | 14.2 | 15.2 | 15.1 | 15.5 | 14.7 | 14.1 |
| Metr sgwâr fesul gweithfan | 11.46 | 11.95 | 12.21 | 12.63 | 12.91 | 12.85 |
| Gweithfannau fesul FTE | 1.24 | 1.27 | 1.24 | 1.23 | 1.14 | 1.1 |

* Mae'r ffigurau yn cynnwys y defnydd o olew ac LPG

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Perfformiad Amgylcheddol** | | | | | | |
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$) | 8,498 | 6,939 | 6,259 | 5,376 | 4,236 | 3,713 |
| Trydan (t $CO_2$) | 7,185 | 5,863 | 5,193 | 4,259 | 3,193 | 2,647 |
| Nwy (t $CO_2$) | 1,313 | 1,076 | 1,066 | 1,117 | 1,043 | 1,066 |
| Cyfanswm gwastraff sy'n dod i'r golwg (Tunelli) | 500 | 498 | 553 | 350 | 372 | 284 |
| Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 25 | 22 | 18.5 | 12 | 1 | 1 |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 75 | 78 | 81.5 | 88 | 88 | 82 |
| Gwastraff i Ynni (% o'r cyfanswm) | - | - | - | - | 11 | 17 |
| Dŵr (CU.M/person/blwyddyn) | 8.3 | 8 | 7.1 | 6.3 | 6.2 | 5.6 |

* Mae'r ffigurau yn cynnwys y defnydd o olew ac LPG

# Atodiad 4: Eiddo y tu allan i Gwmpas yr Adroddiad – Ystad Arbenigol

| Cyfeiriad | Rheswm dros ei hepgor | Arwynebedd Llawr Net, metr sgwâr | Cyfanswm y Gost Flynyddol 2016-2017 | Cyfanswm y Gost Flynyddol 2017-2018 | Cyfanswm y Gost Flynyddol 2018-2019 | Cyfanswm y Gost Flynyddol 2019-2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 Victoria Street, San Steffan | Swyddfa y tu allan i Gymru | 304 | £334,994 | £479,844 | £435,749 | £358,403 |
| 31/33 Heol Casnewydd, Caerdydd | Defnydd Arbenigol | 172 | £155,713 | £162,317 | £185,413 | £107,725 |
| Cyfleuster Arbenigol, Cil-y-coed | Defnydd Arbenigol | Amh | £523,807 | £768,651 | £544,002 | £597,208 |
| Ystad Fasnachu Llandochau, Caerdydd (Uned 22) | Defnydd Arbenigol | 615 | £134,183 | £138,497 | £106,170 | £93,939 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Coryton, Caerdydd | Defnydd Arbenigol (traffig) | 763 | £230,799 | £236,951 | £298,460 | £174,748 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Parc Busnes Morfa, Ffordd Sam Pari, Morfa | Defnydd Arbenigol (traffig) | 1,128 | £165,272 | £190,144 | £179,382 | £127,542 |
| Plot 233, Pafiliwn Maes y Sioe Frenhinol, Llanfair-ym-Muallt | Defnydd Arbenigol (Pafiliwn) | 220 | £50,600 | £74,932 | £69,050 | £47,438 |
| Adeiladau Arbenigol Materion Gwledig, Sir Gaerfyrddi | Defnydd Arbenigol | 452 | £49,592 | £34,123 | £36,957 | £36,104 |